# Graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref

# FAQ's

Ar gyfer darparwyr

**1 Pwy y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt arddangos graddau?**

O 1 Ebrill 2025, bydd pob cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref a gaiff ei arolygu yng Nghymru yn cael graddau.

Bydd yn ofyniad cyfreithiol i'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn arddangos eu graddau yn eu safle.

NID oes rhaid i'r gwasanaethau canlynol arddangos graddau yn eu safle:

- Gwasanaethau ar gyfer pobl dan 18 oed.
- Gwasanaethau bach â 4 preswylydd neu lai.
- Gwasanaethau cymorth cartref lle:
    - Nad yw lleoliad y gwasanaeth yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd.
    - Darperir y gwasanaeth o gartref preifat unigolyn.

Bydd yn ofynnol i bob cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref arddangos eu sgoriau ar eu gwefan.

**2 Pryd y daw'r gofyniad newydd hwn yn weithredol?**

Daw'r gofyniad hwn yn weithredol o 1 Ebrill 2025.

3

**A allaf ddewis peidio ag arddangos fy ngraddau os ydynt yn wael?**

Na allwch. Os yw'n ofyniad cyfreithiol i'ch gwasanaeth arddangos graddau, rhaid i chi eu harddangos waeth beth yw'r radd a ddyfarnwyd.

4

**Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn arddangos fy ngraddau?**

Mae'n ofyniad cyfreithiol i wasanaethau cymwys arddangos eu graddau, felly os na fyddwch yn eu harddangos, gallai hyn arwain at gamau gorfodi.

5

**Pa mor aml y bydd ein graddau yn cael eu diweddaru?**

Caiff graddau eu diweddaru yn dilyn pob arolygiad o'ch gwasanaeth.

6

**Pa mor gyflym y bydd fy ngwasanaeth yn cael ei ailystyried?**

Os bydd AGC yn cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth (sy'n arwain at radd "Rhaid gwella'n sylweddol" ar gyfer y thema arolygu berthnasol), trefnir arolygiad â blaenoriaeth o'ch gwasanaeth o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

Yn ystod yr arolygiad dilynol hwn, bydd AGC yn gwneud y canlynol:

- Asesu p'un a yw'r canlyniadau i'r bobl wedi gwella
- Penderfynu a yw unrhyw faterion parhaus yn gysylltiedig â phroblemau a nodwyd yn flaenorol neu'n cynrychioli meysydd pryder newydd
- Ailystyried y radd ar gyfer y thema arolygu berthnasol yn seiliedig ar unrhyw newidiadau o ran y canlyniadau i'r bobl ers yr arolygiad blaenorol

Os dyfernir gradd 'Rhaid gwella' i wasanaeth oherwydd meysydd i'w gwella a nodwyd, caiff ei arolygu o fewn 12 mis i ddyddiad yr arolygiad.

Cynhelir arolygiad arferol o wasanaethau y dyfarnwyd gradd ‘Da' neu ‘Rhagorol' iddynt o fewn 18 mis i ddyddiad yr arolygiad.

## 7 A allaf ofyn am adolygiad o'm hadroddiad arolygu a'm graddau?

Gallwch, os byddwch o'r farn bod yr adroddiad (gan gynnwys y graddau) yn seiliedig ar anghywirdebau ffeithiol neu dystiolaeth anghyflawn.

Mae'r broses yn dilyn polisi 'Gwneud cais i adolygu tystiolaeth a chanfyddiadau adroddiad arolygu (gan gynnwys graddau)' sydd wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r rheoliadau newydd.

## 8 Sut y byddaf yn cael fy mhoster graddau?

Bydd AGC yn anfon poster dwyochrog y gellir ei sychu i gyfeiriad eich gwasanaeth o fewn 10 diwrnod gwaith i gyhoeddi eich adroddiad arolygu drwy wasanaeth dosbarthiad a gofnodwyd.

## 9 Ble y dylwn i arddangos y poster graddau ffisegol?

**Ar gyfer cartrefi gofal:** Yn y brif fynedfa a / neu lle y gall cymaint o bobl â phosibl ei weld.

**Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref:** Mewn lleoliad amlwg fel y fynedfa i'r swyddfa.

## 10 Beth y dylwn ei wneud os caiff fy mhoster graddau ei ddifrodi neu os caiff ei golli?

Cysylltwch ag AGC ar unwaith er mwyn cael poster newydd. Dim ond un poster a gaiff ei roi i bob gwasanaeth, ond gellir darparu posteri newydd os bydd angen.

## 11 Sut y dylwn arddangos fy ngraddau ar fy ngwefan?

Byddwch yn cael teclyn (darn o god) i'w gynnwys ar eich gwefan, y gallwch ei lawrlwytho o'ch cyfrif AGC Ar-lein.

12

**Pa mor fuan ar ôl yr arolygiad y byddaf yn cael y teclyn ar gyfer fy ngwefan?**

Byddwch yn cael y teclyn ar gyfer eich gwefan o fewn pum diwrnod gwaith i gyhoeddi eich adroddiad arolygu.

13

**A oes angen i mi ddiweddaru'r teclyn ar ôl pob arolygiad?**

Nac oes – unwaith y byddwch wedi cynnwys y teclyn am y tro cyntaf, bydd yn diweddaru'n awtomatig ar ôl pob arolygiad o'ch gwasanaeth.

14

**Os ydw i'n gweithredu sawl gwasanaeth, a oes angen arddangos graddau ar wahân ar gyfer pob un?**

Yes, each service must have its own ratings display, both physical and digital.

15

**Ble y dylwn arddangos y graddau os yw'r gwasanaeth yn gweithredu o sawl lleoliad?**

Ar gyfer gwefannau, dylech arddangos y teclyn ar y dudalen we sy'n berthnasol i bob gwasanaeth. Ar gyfer lleoliadau ffisegol, rhaid i bob cyfeiriad gwasanaeth arddangos ei boster graddau ei hun.